**Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru**

**Cyfarfod rhithwir: Cyfarfod dros Microsoft Teams**

**Dydd Iau 18 Mehefin 2020**

## Cofnodion

### Yn bresennol

Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AS (Cadeirydd)
Simon Hart, Aelod Seneddol, Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Jane Hutt AS, Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip (Is-gadeirydd)
Vaughan Gething AS, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Diweddariad ar Covid-19 yn unig)
Jeremy Miles AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Trefniadau Pontio Ewropeaidd
Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Iechyd Cyffredinol a Phrif Weithredwr y GIG
Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol
Karin Phillips, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Diogelwch Cymunedol
Catrin Dowling, Pennaeth y Tîm Troseddau a Chyfiawnder
Tracey Breheny, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Cyffuriau a Grwpiau sy'n Agored i Niwed
Alyson Francis, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gymunedau
Nazir Afzal, Cynghorydd Cenedlaethol – Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Llywodraeth Cymru
Yasmin Khan, Cynghorydd Cenedlaethol – Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Llywodraeth Cymru
Shyam Vining, Uwch Reolwr Polisi ac Adnoddau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
Liz Lalley, Dirprwy Gyfarwyddwr y Trefniadau Pontio Ewropeaidd
Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Grwpiau sy'n Agored i Niwed a Llywodraethu'r GIG
Siân Brown, Uwch Reolwr y Tîm Troseddau a Chyfiawnder
Leanne Lewis, Swyddog Troseddau a Chyfiawnder
Jayne Phillips, Swyddog Troseddau a Chyfiawnder
Chesney Ovsiowitz, Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyyol, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Chris Llywelyn, Prif Weithredwr, CLlLC
Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus a Thai, CLlLC
Y Canghellor Matthew Dorrance, Llefarydd Diogelwch Cymunedol, CLlLC
Stephen Carr, Rheolwr Cymunedau Mwy Diogel, CLlLC a'r Grŵp Plismona yng Nghymru
Carys Morgans, Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys
Jeff Cuthbert, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent

Eleri Thomas, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent
Siân Curley, Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent
Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
Stephen Hughes, Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
Alun Michael, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Emma Wools, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Lee Jones, Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Cerith Thomas, Cynghorydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Carl Foulkes, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
Mark Collins, Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys
Pam Kelly, Prif Gwnstabl Heddlu Gwent
Amanda Blakeman, Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Gwent
Matt Jukes, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru
Jon Drake, Cyfarwyddwr Uned Atal Trais Cymru
Paul Morris, Pennaeth Uned Cyswllt yr Heddlu
Steve Thomas, Uwcharolygydd Dros Dro, Uned Cyswllt yr Heddlu
Helen Hill, Gweinyddwr, Uned Cyswllt yr Heddlu

Ymddiheuriadau
Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys

| **Cam Gweithredu** | **Arweinydd** |
|---|---|
| 1. Caiff Aelodau o'r Bwrdd eu hannog i gysylltu â'r Arglwydd Ganghellor Robert Buckland, Aelod Seneddol, a swyddogion y Swyddfa Gartref i dynnu sylw at faterion yn ymwneud ag ôl-groniad llysoedd a phwyso am gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r mater hwn | Pob Un |
| 2. Defnyddio Dull Iechyd y Cyhoedd a chryfhau Diogelwch y Gymuned | Ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru |
| 3. Cyllid cynaliadwy hirdymor “ar y cyd” ar gyfer gwasanaethau i ddioddefwyr a throseddwyr | Ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru |
| 4. Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer gwella diogelwch | Ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru |
| 5. Buddsoddi mewn darparu Llety Symud Ymlaen | Ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru |
| 6. Dulliau gwell o rannu data | Ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru |
| 7. Adolygu Unigolion a Ryddhawyd dan Ymchwiliad | Ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru |
| 8. Bwrw golwg dros Reolau Credyd Cynhwysol | Ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru |
| 9. Gwella'r wybodaeth a roddir i Lysoedd Teulu am drais a cham-drin domestig | Ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru |
| 10. Gwahoddwyd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Simon Hart, i ymgysylltu â'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip am faterion yn ymwneud â Chredyd Cynhwysol (yn gysylltiedig â Cham Gweithredu 8) | Ysgrifennydd Gwladol Cymru/Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip |
| 11. Y Cwnsler Cyffredinol i drafod â Robert Buckland, Aelod Seneddol, a swyddogion y Swyddfa Gartref am ffyrdd o wella'r wybodaeth a roddir i Lysoedd Teulu am drais a | Y Cwnsler Cyffredinol |

| Cam Gweithredu | Arweinydd |
|---|---|
| cham-drin domestig x (yn gysylltiedig â Cham Gweithredu 9) | |
| 12. Adroddiad ar gynnydd a phapur trafod wedi'i ddiweddaru ar fynd i'r afael â marwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru i'w cynnwys ar agenda Bwrdd Partneriaeth Plismona Mis Medi. Plismona yng Nghymru i gyflwyno'r adroddiad. | Yr Heddlu |
| 13. Swyddogion Llywodraeth Cymru i gyfarfod â Mr Jon Drake i drafod ei gynnig i gydlynu Asesiad o Anghenion a'i ddatblygu'n briodol. | Llywodraeth Cymru/Jon Drake |
| 14. Swyddogion Llywodraeth Cymru i gysylltu â Phlismona yng Nghymru i fynd i'r afael â chyfleoedd i gydweithio er mwyn cynnig cyfleoedd i ddatblygu swyddi | Llywodraeth Cymru/Heddlu |

## Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd

Croesawodd Prif Weinidog Cymru yr holl aelodau i'r cyfarfod a diolch iddynt ymlaen llaw am ddilyn y protocolau. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa y byddai'r sgyrsiau a geir yn ystod y cyfarfod yn cael eu cynnwys yn y cofnodion.

Gwnaeth y Prif Weinidog groesawu Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Simon Hart, a ymunodd â'r cyfarfod dros y ffôn am y tro cyntaf.

## 1. Sylwadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Simon Hart, Aelod Seneddol

1.1 Diolchodd Mr Hart i'r Prif Weinidog am y gwahoddiad i fynychu Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru gan ychwanegu ei fod yn ddiolchgar i bawb am eu gwaith parhaus o dan yr amgylchiadau eithriadol dros y 12 wythnos diwethaf.

1.2 Nodwyd bod cydweithio yn cael ei ystyried cymaint â phosibl.

1.3 Nodwyd bod yr ôl-groniad yn y system llysoedd yn peri pryder ac y bydd Arglwydd Ganghellor Robert Buckland, Aelod Seneddol, fydd yn mynd i'r afael â'r mater.
**Cam Gweithredu: Caiff Aelodau o'r Bwrdd eu hannog i gysylltu â'r Arglwydd Ganghellor Robert Buckland, Aelod Seneddol, a swyddogion y Swyddfa Gartref i dynnu sylw at faterion yn ymwneud ag ôl-groniad llysoedd a phwyso am gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r mater hwn**

1.4 Gwnaeth y Comisiynydd Michael groesawu Mr Hart i'r Bwrdd Partneriaeth Plismona a diolch iddo am ei ddiweddariad. Cadarnhawyd bod pob heddlu yn ymwybodol o waith yr Arglwydd Ganghellor a'u bod mewn cyswllt ag ef. Nodwyd bod yr ymateb wedi bod yn gadarnhaol hyd yma a bod sgyrsiau'n

parhau am greu system cyfiawnder troseddol anghonfensiynol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad.

**2. Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – Myfyrdodau bum mlynedd ar ôl y ddeddfwriaeth a'r heriau gweithredu presennol yn ystod pandemig Covid-19 (Dirprwy Brif Gwnstabl Amanda Blakeman a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Emma Wools) Blaenoriaethau a Heriau Plismona yng Nghymru**

2.1 Rhannodd y Dirprwy Brif Gwnstabl gyflwyniad â phawb cyn y cyfarfod a'i gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Plismona. Roedd yn tynnu sylw at y cyflawniadau, cyfleoedd a'r gofynion ar gyfer Plismona yng Nghymru yn y dyfodol.

2.2 Cyfeiriwyd at y Ddeddf fel 'trobwynt' wrth i berchenogaeth gael ei throsglwyddo i'r Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mae ar flaen y gad yn rhyngwladol yn hyn o beth. Gwnaeth pob heddlu (y Prif Swyddogion a Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu) newid eu ffocws, ac maent yn parhau i ganolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth.

2.3 Rhwng 2013/14 a 2019/20, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr heddluoedd yng Nghymru sy'n cofnodi achosion o Drais Domestig, gan ddangos bod gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol.

2.4 Gwnaeth y cyflwyniad dynnu sylw at nifer o atebion creadigol a lywiwyd gan y Comisiynwyr, megis y prosiect Braenaru Merched yn Ne Cymru.

2.5 Dywedodd y Comisiynydd Michael fod gan yr Ynadon amheuon am y prosiect Braenaru Merched i ddechrau, ond eu bod yn gwbl gefnogol erbyn hyn.

2.6 Roedd y cyflwyniad yn nodi'r goblygiadau ariannol sylweddol a'r enillion mawr i'r pwrs cyhoeddus.

2.7 Tynnwyd sylw at rannu data fel mater allweddol, gan gymharu cofnodion yr Heddlu â gwybodaeth gan bartneriaid a thynnu sylw at y ffaith bod llawer o achosion nad ydynt yn cael eu cofnodi. Mae cydweithio â'n gilydd a phartneriaid yn ein helpu i gael dealltwriaeth well ac yn ei gwneud yn bosibl i ni gyd-dynnu.

2.8 Mae'r hyn y mae'r partneriaethau yn ei gyflwyno yn diwallu anghenion y troseddwyr a'r dioddefwyr. Mae atal yn hollbwysig. Mae'r newid yn y meddylfryd, o feddwl 'pam nad yw dioddefwyr yn gadael' i 'pam nad yw troseddwyr yn stopio', yn golygu bod y gwaith o roi hyfforddiant addas, cynnal ymchwiliadau a dwyn troseddwyr i gyfrif yn fwy dibynadwy a llwyddiannus.

2.9 Tynnwyd sylw at yr anghydraddoldeb yn y system Credyd Cynhwysol bresennol a'r broses o wneud hawliadau ar y cyd.

2.10 Mae Ymgyrch Encompass, lle y caiff gwybodaeth ei rhannu ag ysgolion pan fydd plentyn wedi bod yn dyst i achos o gam-drin domestig, yn golygu bod plant yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt yn ystod y diwrnod ysgol.

2.11 Cafodd gwybodaeth ei darparu am brosiect WISDOM a chodwyd pryderon am yr effaith negyddol y mae cyllid dros dro yn ei chael, a sut y mae hyn yn effeithio ar wasanaeth, ei ddefnyddwyr a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

2.12 Ymyrraeth yn seiliedig ar dystiolaeth yw'r ffordd ymlaen. Fel y mae'r rhaglen Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ei ddangos, os gellir rhagfynegi ymddygiad, gellir ei atal.

2.13 Cafodd yr holl bartneriaid sy'n cydweithio â'r heddlu eu cydnabod yn y sleid ategol, gan dynnu sylw at yr angen i ymyrryd yn gynnar. Er y cydnabuwyd bod cyllid yn mynd i fod yn her barhaus, byddai cael mwy o rybudd mewn cysylltiad â ffrydiau cyllid a grantiau tymor hwy o gymorth i bartneriaid.

2.14 Codwyd pryderon am achosion o oedi yn y llys, yn enwedig yn ystod COVID-19. Yn arbennig, soniwyd am bryderon diogelu pan gaiff troseddwyr eu rhyddhau dan ymchwiliad. Mae amodau mechnïaeth ychwanegol yn golygu y gellir rheoli sefyllfa yn fwy effeithiol.

2.15 Nododd CC Jukes, yn dilyn y cwymp mewn adroddiadau ers 23 Mawrth 2020, fod nifer cynyddol o adroddiadau wedi'u derbyn, gyda sawl un ohonynt yn ddifrifol eu natur. Yn dilyn gostyngiad o tua 25% ers 2019 yn ystod mis Mawrth/Ebrill – dim ond gostyngiad o 2% a geir erbyn hyn yn nifer y troseddau trais domestig o gymharu â 2019 wrth i ni ddod allan o'r cyfyngiadau symud.

2.16 Ychwanegodd y Comisiynydd Michael nad oedd y cyfraddau arestio wedi gostwng – gan ddangos bod ymateb yr heddlu i achosion o Drais a Cham-drin Domestig yng Nghymru wedi parhau yn ystod argyfwng Covid-19.

2.17 Cadarnhaodd CC Foulkes fod y sefyllfa'n debyg yng Ngogledd Cymru ac ar ôl gostyngiad cychwynnol yn nifer yr adroddiadau, fod nifer yr adroddiadau wedi dychwelyd i'r lefelau arferol. Cadarnhawyd bod partneriaid ac asiantaethau gwirfoddol wedi darparu llawer o gymorth, a fu'n fuddiol iawn er mwyn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei roi i unigolion agored i niwed.

2.18 Gan ategu sylwadau CC Foulkes, ychwanegodd Prif Weithredwr Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu Gogledd Cymru, Stephen Hughes, fod gwasanaeth Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig ledled Gogledd Cymru wedi gweithio'n dda iawn yn ystod y cyfyngiadau symud, gan sicrhau'r effaith leiaf bosibl ar ddioddefwyr.

2.19 Nododd CC Jukes fod gwaith y gwasanaethau cymorth wedi bod yn wych ac yn arbennig o wydn yn ystod COVID-19. Byddant yn wynebu hyd yn oed mwy

o bwysau yn sgil yr oedi sy'n debygol o fod yn y llysoedd, ac rydym yn dechrau gweld bod y diffynyddion yn llai tebygol o bledio'n euog a'i fod yn fwy tebygol y bydd tystion yn tynnu'n ôl dros amser. Felly, byddai pwysleisio cynaliadwyedd yn hollbwysig dros y ddwy flynedd nesaf.

2.20 Nododd Mr Hughes ei bod hefyd yn bwysig cydnabod bod cyllid cynaliadwy yn berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol yn ogystal â thrais domestig.

2.21 Gwnaeth y Dirprwy Gomisiynydd, Emma Wools, grynhoi mai gweithio mewn partneriaeth, cryfhau ymateb a chanolbwyntio ar flaenoriaethau fydd yn bwysig yn y dyfodol.

2.22 Ar ran Plismona yng Nghymru, cysylltodd Emma â **Llywodraeth Cymru i geisio ei chyngor ar y canlynol** i adeiladu ar ddull Glasbrint Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: **(Camau gweithredu 2-6)**

- **Defnyddio Dull Iechyd y Cyhoedd a chryfhau Diogelwch y Gymuned**
- **Cyllid cynaliadwy hirdymor "ar y cyd" ar gyfer gwasanaethau i ddioddefwyr a throseddwyr**
- **Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer gwella diogelwch**
- **Buddsoddi mewn darparu Llety Symud Ymlaen**
- **Dulliau gwell o rannu data**

2.23 Ac i **Lywodraeth Cymru geisio cymorth Llywodraeth y DU i wneud y canlynol: (Camau gweithredu 7-9)**

- **Adolygu Unigolion a Ryddhawyd dan Ymchwiliad**
- **Bwrw golwg dros Reolau Credyd Cynhwysol**
- **Gwella'r wybodaeth a roddir i Lysoedd Teulu am drais a cham-drin domestig**

2.23 Cydnabuodd Emma y gymuned amrywiol yng Nghymru a phwysigrwydd sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn arwain ar ddata Llywodraeth Cymru, gan barhau i adeiladu ar waith yr Uned Atal Trais a grŵp ymateb COVID.

2.24 Gwnaeth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ddiolch i Emma a'r Dirprwy Brif Gwnstabl Blakeman am eu cyflwyniad. Dywedodd mai dull amlasiantaethol oedd ei angen yn y dyfodol a chadarnhaodd nad dyma'r amser ar gyfer treialu, ond yn hytrach, fod angen cydnabod beth sy'n gweithio a symud ymlaen.

2.25 Dywedodd y Dirprwy Weinidog mai hi sydd â chyfrifoldeb portffolio am y maes hwn a rhoddodd sicrwydd i'r aelodau fod gwaith yn mynd rhagddo i ystyried sut y gellir gwneud newidiadau i gyllid cynaliadwy tymor hwy.

2.26 Gwnaeth Cynghorwyr Cenedlaethol tîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru, Yasmin Khan a Nazir Afzal, ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am eu gwahodd i'r cyfarfod. Fel Cynghorwyr Cenedlaethol, gwnaethant nodi eu bod yn awyddus i barhau i gydweithio ag arweinwyr yr heddlu i wella'r gwasanaeth i bobl yng Nghymru. Gwnaethant annog aelodau'r bwrdd i gysylltu â nhw ar unrhyw adeg.

2.27 Eglurodd Ms Khan fod ymarfer mapio yn mynd rhagddo i ganolbwyntio ar yr holl ffrydiau cyllid yn ogystal â chyfarfod strategol â chynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru (Paula Hardy) ar ran pedair Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.

2.28 Bydd y Grŵp Cyllid Cynaliadwy yn dod â'r comisiynwyr at ei gilydd i drafod penderfyniadau ynghylch cyllid â'r nod o gysoni cyllidebau. Mae'r Grŵp hefyd wedi cytuno ar egwyddorion cyllido ac wrthi'n mapio cyllid i gefnogi dull cyllido cynaliadwy.

2.29 Gwnaeth y Dirprwy Weinidog wahodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Simon Hart, Aelod Seneddol, mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru, i fynd i'r afael â'r materion hirdymor yn ymwneud â Chredyd Cynhwysol.
**Cam Gweithredu 10: Gwahoddwyd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Simon Hart, i ymgysylltu â'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ar faterion yn ymwneud â Chredyd Cynhwysol.**

2.30 Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r Cwnsler Cyffredinol, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, yn mynd i'r afael â Llysoedd Teulu ac yn ymgysylltu â'r Arglwydd Ganghellor Robert Buckland, Aelod Seneddol, i ddatblygu'r gwaith.
**Cam Gweithredu 11: Y Cwnsler Cyffredinol i drafod â Robert Buckland, Aelod Seneddol, a swyddogion y Swyddfa Gartref am ffyrdd o wella'r wybodaeth a roddir i Lysoedd Teulu am drais a cham-drin domestig**

2.31 Gwnaeth Llywodraeth Cymru barhau i gyllido llinell gymorth Byw Heb Ofn, sydd wedi derbyn nifer cynyddol o alwadau, sgyrsiau ar-lein, negeseuon testun ac e-byst o ddechrau mis Ebrill i'r cyfnod presennol.

2.32 Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn falch o glywed y cyfeiriad at Glasbrint Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'i bod yn teimlo bod yr Heddluoedd a Llywodraeth Cymru yn symud i'r cyfeiriad cywir.

2.33 Cytunodd y Dirprwy Weinidog i rannu data fel rhan o Ddull Iechyd y Cyhoedd ac y byddai Swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal sgyrsiau rheolaidd â chydweithwyr yn Public Health England.

2.34 Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod cyflymder y gwaith yn galonogol a'i bod yn annog cynrychiolaeth gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu ar y Grŵp Cyllido Cynaliadwy a fyddai'n cael ei sefydlu'n fuan.

2.35 Cafwyd trafodaethau am y ffaith bod llawer o achosion o Drais Rhywiol nad ydynt yn cael eu cofnodi. Tynnwyd sylw at ystadegau o Seland Newydd, lle roedd y ffigurau ar nifer yr achosion o dreisio yn uwch mewn cyfnod o bythefnos na'r cyfartaledd mewn cyfnod o ddeufis.

2.36 Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid ar waith. Diolchwyd i'r Dirprwy Brif Gwnstabl Blakeman, a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools, am eu cyflwyniad grymus, a gymeradwywyd gan y Comisiynwyr a'r Prif Gwnstabliaid.

**3. Adolygu'r camau gweithredu yn ymwneud â Chamddefnyddio Sylweddau yn deillio o gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth ac effaith COVID 19 ar gamddefnyddio sylweddau a gwasanaethau a chytuno ar y camau nesaf (Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu / Prif Gwnstabl Jukes / Llywodraeth Cymru)**

3.1 Cyfeiriodd y Comisiynydd Arfon Jones at gyflwyniad a roddwyd yn y cyfarfod diwethaf ond un. Gwnaeth Mr Jones ddiolch i Lywodraeth Cymru am ei gymorth hyd yma, yn enwedig i Tracey Cooper a Tracey Breheny, a nodwyd bod ganddo ddiddordeb o hyd yn yr atebion y gallai Triniaeth â Chymorth Heroin (HAT) ac ‘ystafelloedd cymryd cyffuriau diogel’ eu cynnig. Fodd bynnag, cydnabuwyd nad fu modd iddynt wneud cymaint o gynnydd ag yr oeddent wedi gobeithio oherwydd COVID-19. Cadarnhaodd Mr Jones fod ei swyddfa wedi trefnu cynhadledd yn seiliedig ar HAT ym mis Tachwedd 2020.

3.2 Eglurwyd bod swyddogion Heddlu Gogledd Cymru wedi cwblhau hyfforddiant ar ddefnyddio naloxone trwynol, ond bod y cynllun wedi'i ohirio am y tro oherwydd y pandemig presennol.

3.3 Gwnaeth CC Jukes atgoffa aelodau fod ffigurau'r marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ymhlith y pum uchaf yn y DU, gyda Abertawe yn yr ail safle ar ôl Blackpool.

3.4 Awgrymwyd bod angen cysylltu â gwledydd eraill o bosibl i ystyried y gwersi a ddysgwyd.

3.5 Yn ystod y cyfyngiadau symud, o safbwynt gweithredol, bu cynnydd yn nifer yr arestiadau yn ymwneud â chyffuriau gan fod yr adnoddau a ddefnyddir ar gyfer yr economi liw nos a materion eraill wedi'u dargyfeirio i feysydd eraill.

3.6 Bydd y ffigurau ar gyfer marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a gorddos yn dod yn gliriach dros amser, ond awgrymwyd eu bod wedi aros yn sefydlog a bod nifer yr adroddiadau o gamddefnyddio cyffuriau presgripsiwn wedi cynyddu.

3.7 Cafodd cynllun Dyfodol ei ganmol am y gwaith gwych a wnaed ac am barhau i weithio drwy gydol y cyfyngiadau symud.

3.8 Mynegwyd pryder am lefelau cynyddol y dyledion oherwydd cyffuriau o ganlyniad i anallu unigolion sy'n agored i niwed i ddwyn o siopau neu ymgymryd â gwaith rhyw, ac mae pryder bod hyn wedi arwain at gynnydd mewn nifer y benthycwyr arian didrwydded. Dywedodd y Prif Gwnstabl Jukes ei fod yn gobeithio cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru unwaith eto i drafod dulliau arloesol o fynd i'r afael â'r prif ffactorau sy'n achosi problemau yn ymwneud â chyffuriau.

3.9 Dywedwyd bod drafft cyntaf o gynnig ar gyfer cynnig cyd-gomisiynu ar gyfer Bae Abertawe wedi'i lunio, ac er y bu llawer o weithgarwch ymgysylltu cadarnhaol â'r gymuned leol, fod angen gwneud llawer mwy.

3.10 Gwnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething, ddiolch i bob cyfranogwr. Cytunodd ei fod yn gobeithio y bydd y pwysau yn sgil COVID-19 wedi lleihau erbyn y Bwrdd Partneriaeth Plismona nesaf ac y dylid creu adroddiad arall ar y materion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau a drafodwyd yn flaenorol, gan roi mwy o amser i drafod sut i fynd i'r afael â phryderon a rennir.
**Cam Gweithredu 12: Adroddiad ar gynnydd a phapur trafod wedi'i ddiweddaru ar fynd i'r afael â marwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru i'w cynnwys ar agenda Bwrdd Partneriaeth Plismona Mis Medi. [Yn dilyn cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, cafodd cyfarfod ei gynnal rhwng Swyddogion Llywodraeth Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools. Cafodd cynnydd am Fae Abertawe ei groesawu yn y cyfarfod a chytunwyd y byddai Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yn derbyn adroddiadau ysgrifenedig ar gynnydd. Byddai unrhyw drafodaethau eraill yn cael eu cynnal fel eithriad pe bai unrhyw oedi.**
Plismona yng Nghymru i gyflwyno'r adroddiad.

**4. Materion Strategol a Gweithredol yn codi o faterion yn ymwneud â Covid-19 ac sy'n amherthnasol i Covid-19 (gan gynnwys materion i'w hystyried ynghylch Adfer).**
**Papurau diweddaru gan bob Heddlu (yn weithredol ac ar Swyddfeydd Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu), Llywodraeth Cymru a'r Uned Atal Trais**

4.1 Gwnaeth y Prif Weinidog ddiolch i'r wyth Corfforaeth Undyn, CLlLC a Jon Drake am y papurau ysgrifenedig a dywedodd eu bod eisoes wedi cytuno i fynd i'r afael â phob mater nad oedd yn ymwneud â COVID y tu allan i'r cyfarfod.

Diweddariadau'r Prif Gwnstabl:

4.2 Gogledd Cymru - Tynnodd y Prif Gwnstabl Foulkes sylw at llinellau cyffuriau a'r cysylltiadau rhwng y mater hwn a'r eitem flaenorol ar yr agenda. Eglurwyd nad oedd y diffyg cyflenwad o gyffuriau wedi rhoi terfyn ar weithgareddau a'u bod yn parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â throseddau.

4.3 Roedd y gorchmynion yn ymwneud ag amddiffyn plant wedi gostwng tua 30% yn ystod y cyfyngiadau symud ac mae gwaith yn mynd rhagddo o hyd gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r mater hwn.

4.4 Gwent – Gwnaeth y Prif Gwnstabl Kelly ddiolch i swyddogion Llywodraeth Cymru ac Uned Cyswllt yr Heddlu am y dulliau cyfathrebu rhagorol yn ystod y llifogydd, pandemig, arestiadau a'r achosion eraill o lifogydd.

4.5 Dywedwyd bod Heddlu Gwent wedi gweithio'n galed i sicrhau ei fod yn barod am ail don yn sgil y Coronafeirws. Er ei fod yn gobeithio na fydd hyn yn digwydd, achubwyd ar bob cyfle i ddysgu gwersi yn fewnol a gyda phartneriaid.

4.6 Roedd y materion sy'n parhau i fod yn berthnasol yng Ngwent yn cynnwys ffordd liniaru'r M4 a materion a godwyd yn sgil symudiad Mae bywydau Du o Bwys.

4.7 Gwnaeth y Prif Weinidog ddiolch i Plismona yng Nghymru am y ffordd y mae heddluoedd wedi ymateb i ddigwyddiadau sy'n cefnogi Mae Bywydau Du o Bwys a delio â nhw.

4.8 Heddlu De Cymru – Dywedodd y Prif Gwnstabl Jukes mai'r brif neges sydd wedi ymddangos yn ystod y cyfnod anodd hwn i'n cymunedau, yw'r berthynas dda sydd rhwng Llywodraethau Lleol, Llywodraeth Cymru a heddluoedd.

4.9 Tynnwyd sylw at y ffaith bod y ddarpariaeth o gorffdai wedi'i nodi fel problem fawr. Er ei fod yn ddiolchgar i'r crwner am ddarparu sefydliadau dros dro, nid ydynt yn fesurau hirdymor ac mae angen mynd i'r afael â'r mater.

4.10 Er ei fod yn debygol iawn y caiff adolygiadau ar COVID eu cynnal gan ymateb yn feirniadol i'r anghydraddoldeb y gwnaeth y Prif Gwnstabl Jukes dynnu sylw ato, sef yr effaith ar bobl ifanc a'r ffaith mai pobl rhwng 18 a 44 sydd wedi mynd yn groes i gyfyngiadau COVID-19 fwyaf.

4.11 Gwelodd Heddlu De Cymru ddigwyddiad yn cefnogi Mae Bywydau Du o Bwys a oedd yn cynnwys 3,000 o bobl gydag ymgeisiau rhesymol i gadw pellter cymdeithasol. Yn ffodus, mae Cymru wedi dangos cefnogaeth fwy heddychlon i nodau'r symudiad o gymharu â mannau eraill yn y DU.

4.12 Ychwanegodd y Prif Gwnstabl Jukes fod yr heddlu yn croesawu neges Llywodraeth Cymru sy'n gwahardd cynulleidfaoedd mawr, ond ei bod yn bwysig parhau i blismona achosion o'r fath.

4.13 Gwelwyd cynnydd mewn tensiynau cymunedol adain dde. Mae Heddlu De Cymru yn ymwybodol o hyn ac yn monitro'r sefyllfa'n agos.

4.14 Heddlu Dyfed Powys – Tynnodd y Prif Gwnstabl Collins at y ffaith bod tueddiadau troseddau wedi gostwng 30%, er bod ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cynyddu.

4.15 Trafodwyd rhoi Hysbysiadau Cosb Penodedig anghymesur ar gyfer achosion o fynd yn groes i'r cyfyngiadau symud eu trafod. Dywedodd y Prif Gwnstabl Collins fod pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn cynrychioli 7% o'r sawl a dderbyniodd hysbysiadau cosb penodedig. Fodd bynnag, roedd wedi bwrw golwg dros y cofnodion ac roedd yn gyfforddus gyda'r rhesymau dros hyn (er enghraifft beicwyr modur/grwpiau yn dod i'r ardal i bysgota cocos/gwersylla).

4.16 Mae Heddlu Dyfed Powys yn rhan o Grŵp Dysgu Gwersi Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi a dywedodd ei fod am arwain newid.

4.17 Mae 70 o achosion o bobl yn ymgynnull i gefnogi'r mudiad wedi'u cynnal ledled ardal yr heddlu ac mae pob un ohonynt wedi bod yn heddychlon. Rhagwelwyd y byddai mwy o ddigwyddiadau o'r fath yn parhau dros y penwythnos sydd i ddod a thu hwnt.

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau

4.18 Gogledd Cymru – Dywedodd y Comisiynydd, Arfon Jones, fod y prif bwyntiau yn ymwneud â COVID wedi'u cynnwys yn y papur a bod achosion o gamddefnyddio sylweddau wedi'u trafod yn y cyfarfod. Dim byd arall i'w ychwanegu.

4.19 Gwent – Rhannodd y Comisiynydd, Jeff Cuthbert, ei bryder o ran nodi cost y gwariant ychwanegol yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod heddluoedd yn gallu hawliau cyllid o'r Swyddfa Gartref.

4.20 Mae'r Tîm Cyfathrebu wedi bod yn gweithio'n galed i annog pobl i aros yn lleol gan roi pwyslais mawr ar sicrhau bod bobl ifanc yn y gymuned yn ymgysylltu â'r heddlu a helpu pobl ifanc eraill i aros yn lleol a dilyn y rheolau.

4.21 Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i gyfleu'r neges y dylai'r gymuned ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gefnogi mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, yn hytrach na mynd i ddigwyddiadau. Fodd bynnag, os byddant yn dewis mynd i ddigwyddiadau, pwysleisiwyd y neges glir y dylai pobl gadw pellter o ddwy fetr rhyngddynt.

4.22 De Cymru – Cafwyd diweddariad gan y Comisiynydd, Alun Michael, yn nodi bod Bwrdd y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel wedi gorffen ei waith yr wythnos honno. Mae CLlLC wedi cefnogi'r gwaith a bydd yn parhau i weithio i gefnogi a helpu rhwydweithiau er mwyn sicrhau bod y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel yn cael ei hatgyfnerthu a'i chefnogi.

4.23 Dylid ystyried yr ymateb i farwolaeth George Floyd fel cyfle i ddarparu cyfleoedd cyfartal.

4.24 Dywedodd Mr Michael ei fod yn falch o weld gwaith yr Uned Atal Trais yn datblygu.

4.25 Mae adborth gan y Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu bob amser yn nodi'r cydweithrediad rhwng partneriaethau yma yng Nghymru rhwng y Prif Gwnstabliaid a'r Comisiynwyr a'r partneriaid, y gallwn fanteisio arnynt yn y cyd-destun datganoledig.

4.26 Uned Atal Trais – Cyflwynodd Mr Jon Drake ei hun i'r Cadeirydd gan egluro mai tîm newydd â chraidd bach yw'r uned hon, a gefnogir gan dîm datganoledig ac annatganoledig, sy'n cynnwys 50 o bobl.

4.27 Mae'r peryglon yn ystod y cyfyngiadau symud yn benodol yn gynnwys bod yn ynysig, cyfleoedd cyfyngedig i gyflwyno adroddiadau ac ysgolion yn cau.

4.28 Mae data amlasiantaethol yn cael eu casglu ar hyn o bryd i greu darlun cywir o gam-drin domestig yng Nghymru a chaiff y wybodaeth ei rhannu ledled Cymru.

4.29 Amcangyfrifir bod achosion o drais yn costio £46 miliwn i'r GIG yng Nghymru bob blwyddyn. Awgrymwyd y dylid llunio asesiad o anghenion ym mhapur yr Uned Atal Trais. Cynigiodd Mr Drake i gwblhau'r dasg hon ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd Partneriaeth Plismona maes o law.

4.30 Gwnaeth y Prif Weinidog ddiolch i Mr Drake am ei gynnig a chadarnhaodd y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn cwblhau camau dilynol ar y cynnig y tu allan i'r cyfarfod.
**Cam Gweithredu 13: Swyddogion Llywodraeth Cymru i gyfarfod â Mr Jon Drake i drafod ei gynnig i gydlynu Asesiad o Anghenion a'i ddatblygu'n briodol**.

4.31 Gwnaeth Naomi Alleyne o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru dynnu sylw at y risgiau cynyddol o sgamiau yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud. Cadarnhawyd bod y tîm Profi, Olrhain a Diogelu yn cydweithio'n agos â CLlLC a'r Heddlu.

4.32 Gwnaeth Naomi ddiolch i'r heddlu am y gydberthynas agos wrth weithio ar y cyd i fynd i'r afael â'r sefyllfa o ran darparu tai i'r digartref a materion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

4.33 Eglurwyd y bu'n rhaid newid gwaith ieuenctid ond bod y newidiadau a roddwyd ar waith wedi gweithio'n dda.

4.34 Mae mudiad Mae Bywydau Du o Bwys yn derbyn y sylw priodol y mae'n ei haeddu drwy'r gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru dan arweiniwyd y Barnwr Ray Singh.

4.35 Gwnaeth y Prif Weinidog ddiolch i bawb am eu papurau a chrynhoi pwysigrwydd y canlynol:

4.36 Yr ymdrech i weithio mewn partneriaeth, sydd wedi bod yn hollbwysig ar gyfer y ffordd y mae Cymru yn delio â'r pandemig.

4.37 Y gwariant dilynol fydd ei angen a'r effaith enfawr y bydd y gwaith o atgyweirio ac adnewyddu yn ei gael ar gyllidebau.

4.38 Anghydraddoldeb a phryder Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghymesuredd ym mhob agwedd, gan gynnwys unigolion BAME, Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac oedrannau.

## 5. <u>Unrhyw Fater Arall</u>

5.1 Tynnodd y Comisiynydd Cuthbert sylw at y pryder a rennir o ran twf swyddi yng Nghymru. Eglurodd ei fod wedi ysgrifennu at Ken Skates AS am y gwaith a gwblhawyd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Plismona yng Nghymru i fynd i'r afael â'r swyddi sy'n debygol o gael eu colli ymhlith pobl iau, a helpu i'w hatal rhag ymwneud â throseddau. Fel rhan o'r gwaith hwn, gwahoddwyd Llywodraeth Cymru i gydweithio â heddluoedd gan ddefnyddio dull ar y cyd.

5.2 Dywedodd y Prif Weinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn awyddus i gydweithio â Plismona yng Nghymru i edrych ar bob opsiwn o ran twf swyddi yng Nghymru.
**Cam Gweithredu 14: Swyddogion Llywodraeth Cymru i gysylltu â Phlismona yng Nghymru i fynd i'r afael â chyfleoedd i gydweithio er mwyn cynnig cyfleoedd i ddatblygu swyddi**

5.3 Gwnaeth y Comisiynydd Cuthbert hefyd godi'r mater sy'n mynd rhagddo o hyd o ran cyllid Ardoll Brentisiaethau a gofynnodd am gymorth parhaus.

## 6. <u>Dyddiad ac Amser y Cyfarfodydd Nesaf</u>

6.1 17 Medi – 13:00-15:00

**7.** **Diwedd**

Gwnaeth y Prif Weinidog ddiolch i'r aelodau am eu cyfraniad ac am bopeth y maent yn ei wneud.

Cyfarfodydd sydd i ddod

17 Medi 2020 13:00 – 15:00

3 Rhagfyr 2020 13:00 – 15:00

**Camau Gweithredu Newydd o gyfarfod 18/06/2020**

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| **Camau gweithredu sy'n codi yn dilyn Diweddariad Ysgrifennydd Gwladol Cymru:** | |
| (1.3) Cam Gweithredu 1: Caiff Aelodau o'r Bwrdd eu hannog i gysylltu â'r Arglwydd Ganghellor Robert Buckland, Aelod Seneddol, a swyddogion y Swyddfa Gartref i dynnu sylw at faterion yn ymwneud ag ôl-groniad llysoedd a phwyso am gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r mater hwn | Pob aelod |
| **Camau gweithredu 2-9: Camau gweithredu sy'n codi o'r Cyflwyniad ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol:** | |
| (2.22) Cam Gweithredu 2: Gofynnir i Lywodraeth Cymru gefnogi Plismona yng Nghymru drwy ddefnyddio Dull Iechyd y Cyhoedd a chryfhau Diogelwch Cymunedol. | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| (2.22) Cam gweithredu 3: Gofynnir i Lywodraeth Cymru gefnogi Plismona yng Nghymru drwy roi cyllid cynaliadwy “ar y cyd” yn yr hirdymor ar gyfer gwasanaethau i ddioddefwyr a throseddwyr | Swyddogion Llywodraeth Cymru |

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| **Camau gweithredu sy'n codi yn dilyn Diweddariad Ysgrifennydd Gwladol Cymru:** | |
| (2.22) Cam gweithredu 4: Gofynnir i Lywodraeth Cymru gefnogi Plismona yng Nghymru drwy gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer gwella diogelwch | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| (2.22) Cam gweithredu 5: Gofynnir i Lywodraeth Cymru gefnogi Plismona yng Nghymru drwy sicrhau buddsoddiad i ddarparu Llety Symud Ymlaen | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| (2.22) Cam Gweithredu 6: Gofynnir i Lywodraeth Cymru gefnogi Plismona yng Nghymru drwy sicrhau y caiff data eu rhannu yn well gyda phob asiantaeth partner | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| (2.26) Cam Gweithredu 7: Llywodraeth Cymru i geisio cymorth gan Lywodraeth y DU i Adolygu Unigolion a Ryddhawyd dan Ymchwiliad | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| (2.26) Cam Gweithredu 8: Llywodraeth Cymru i geisio cymorth gan Lywodraeth y DU i Adolygu Rheolau Credyd Cynhwysol. | Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip/Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| (2.26) Cam Gweithredu 9: Llywodraeth Cymru i geisio cymorth gan Lywodraeth y DU i wella'r wybodaeth a roddir i Lysoedd Teulu am drais a cham-drin domestig | Cwnsler Cyffredinol – JM |
| **Materion sy'n codi o'r cyfarfod** | |
| (2.29) Cam Gweithredu 10: Gwahoddwyd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Simon Hart, Aelod Seneddol, i ymgysylltu â'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip am faterion yn ymwneud â Chredyd Cynhwysol. | Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip/Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| (2.30) Cam Gweithredu 11: Y Cwnsler Cyffredinol i drafod â Robert Buckland, Aelod Seneddol, a swyddogion y Swyddfa Gartref am ffyrdd o wella'r wybodaeth a roddir i Lysoedd Teulu am drais a cham-drin domestig | Cwnsler Cyffredinol – JM |
| (3.10) Cam Gweithredu 12: Adroddiad ar gynnydd a phapur trafod wedi'i ddiweddaru ar fynd i'r afael â marwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru i'w cynnwys ar agenda Bwrdd Partneriaeth Plismona Mis Medi. | Plismona yng Nghymru |

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| **Camau gweithredu sy'n codi yn dilyn Diweddariad Ysgrifennydd Gwladol Cymru:** | |
| Yn dilyn cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, cafodd cyfarfod ei gynnal rhwng Swyddogion Llywodraeth Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools. Cafodd cynnydd am Fae Abertawe ei groesawu yn y cyfarfod a chytunwyd y byddai Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yn derbyn adroddiadau ysgrifenedig ar gynnydd. Byddai unrhyw drafodaethau eraill yn cael eu cynnal fel eithriad pe bai unrhyw oedi.<br>Plismona yng Nghymru i gyflwyno'r adroddiad. | |
| (4.30) Cam Gweithredu 13: Swyddogion Llywodraeth Cymru i gyfarfod â Mr Jon Drake i drafod ei gynnig i gydlynu Asesiad o Anghenion a'i ddatblygu'n briodol. | Swyddogion Llywodraeth Cymru/ Jon Drake |
| (5.2) Cam Gweithredu 14: Swyddogion Llywodraeth Cymru i gysylltu â Plismona yng Nghymru i fynd i'r afael â chyfleoedd i gydweithio i ddatblygu swyddi. | Swyddogion Llywodraeth Cymru/ JC |